Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Gorchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymwyso) 2015

Dyddiad cyhoeddi: **Ebrill 2015**

OGL ISBN Digidol 978 1 4734 3493 6 © Hawlfraint y Goron 2015

**Cyflwyniad**

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad a geisiodd farn ar Orchymyn drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 (Gorchymyn drafft 2015), a bwriedir iddo gael ei ddeddfu cyn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol 2016.

Mae Gorchymyn drafft 2015 yn rhestru swyddi, os y'u delir gan berson, sy'n ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Cynulliad.

Diben yr ymgynghoriad oedd ceisio barn ar gynnwys Gorchymyn drafft 2015 (a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori) cyn iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru, ac anfonwyd dolen i'r ymgynghoriad i bob swydd y cynigir y dylid ei chynnwys yn y gorchymyn nesaf, gan wahodd sylwadau. Er mwyn bod yn dryloyw, mae'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r meini prawf a'r egwyddorion a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru i benderfynu pa swydd y dylid eu cynnwys fel swyddi sy'n anghymhwyso yng Ngorchymyn 2015.

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 14 Ionawr 2015 a daeth i ben ar 11 Mawrth 2015.

Gofynnodd yr ymgynghoriad y tri chwestiwn canlynol:

<u>Cwestiwn 1</u>
A ydych yn cytuno y dylai'r swyddi a nodir yn y Gorchymyn Anghymhwyso drafft gael eu cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso nesaf?

<u>Cwestiwn 2</u>
A oes unrhyw swyddi eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso drafft, neu sydd wedi'u hanghymhwyso o dan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 neu ddeddfwriaeth arall, a ddylai anghymhwyso rhywun rhag bod yn aelod o'r Cynulliad? Os oes, beth arall sydd angen ei gynnwys a pham?

<u>Cwestiwn 3</u>
Os oes unrhyw faterion eraill nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol yn y cwestiynau uchod, nodwch hwy isod.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gyflwynwyd, a chamau nesaf arfaethedig Llywodraeth Cymru.

**Ymatebion**

Rhestrir yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn Atodiad A. Crynhoir yr ymatebion a gyflwynwyd isod:

<u>Cwestiwn 1</u>
A ydych yn cytuno y dylai'r swyddi a nodir yn y Gorchymyn Anghymhwyso drafft gael eu cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso nesaf?

Cafwyd cyfanswm o wyth o ymatebion ffurfiol. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau i'r swyddi i'w cynnwys a restrwyd yn y Gorchymyn drafft. Nododd dau ymatebydd yn benodol eu bod yn cytuno â'r swyddi a restrwyd; nododd ymatebwyr eraill eu bod yn cytuno â'r swyddi penodol a gynhwyswyd a oedd yn berthnasol i'w sefydliadau.

<u>Cwestiwn 2</u>
A oes unrhyw swyddi eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso drafft, neu sydd wedi'u hanghymhwyso o dan adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 neu ddeddfwriaeth arall, a ddylai anghymhwyso rhywun rhag bod yn aelod o'r Cynulliad? Os oes, beth arall sydd angen ei gynnwys a pham?

Ymatebodd Stuart Williams, Barnwr Cyflogaeth Rhanbarthol, nad yw'r Tribiwnlys Cyflogaeth yn rhan ffurfiol o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Oni fydd yn cael ei gwmpasu mewn man arall, awgrymodd y dylid cynnwys 'Y Tribiwnlys Cyflogaeth - Pob aelod'.

<u>Cwestiwn 3</u>
Os oes unrhyw faterion eraill nad ydym wedi ymdrin â hwy'n benodol yn y cwestiynau uchod, nodwch hwy isod.

Ymatebodd y Comisiwn Etholiadol ei fod yn fodlon bod ei holl staff yn cael ei gynnwys, ond nododd fod aelodau ac uwch staff wedi'u hanghymhwyso o dan ddeddfwriaeth arall a bod pob aelod o staff yn rhwym wrth god ymddygiad a fyddai'n arwain at derfynu cyflogaeth pe bai aelod o staff yn sefyll mewn etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru sut bynnag.

Ymatebodd Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Cymru) ei bod yn gryf o blaid y syniad o gyhoeddi rhestr gynhwysfawr o'r holl ddarpariaethau anghymhwyso. Argymhellodd y dylai'r 'rhestr hollgynhwysfawr' berthnasol gael ei pharatoi a'i chyhoeddi mewn modd sydd mor syml ac mor ddealladwy â phosibl i'r holl ymgeiswyr ac asiantau sy'n sefyll etholiad yn 2016. Yn ddelfrydol, dylai'r rhestr hefyd gael ei llunio mewn ffordd hawdd ei defnyddio, gan fanteisio i'r eithaf ar fuddiannau'r cyfryngau digidol os oes modd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dadansoddi'r ymatebion a gyflwynwyd ac wedi canfod y canlynol:

***Rhestr o swyddi sy'n anghymhwyso***

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ag ymateb Stuart Willams, Barnwr Cyflogaeth Rhanbarthol, y dylid ychwanegu aelodau o Dribiwnlysoedd Cyflogaeth at y rhestr o swyddi sy'n anghymhwyso. Mae hyn yn gyson â'r meini prawf a'r egwyddorion a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn penderfynu pa swyddi y dylid eu cynnwys: un o'r meini prawf yw y dylid anghymhwyso aelodau o dribiwnlysoedd barnwrol. At hynny, rydym o'r farn y byddai'n gyson â'r meini prawf pe bai aelodau o'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth yn cael eu hanghymhwyso hefyd. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ychwanegu aelodau o Dribiwnlysoedd Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth at y swyddi anghymwys yn y Gorchymyn drafft.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ag ymateb y Comisiwn Etholiadol y dylai holl aelodau a staff y Comisiwn Etholiadol gael sail statudol dros anghymhwyso. Felly, er bod darpariaeth statudol eisoes sy'n anghymhwyso Aelodau Cynulliad rhag dod yn aelodau o'r Comisiwn Etholiadol, cytunwn â'r Comisiwn Etholiadol y dylai'r cofnod cyfredol yn y Gorchymyn drafft ar gyfer y Comisiwn Etholiadol - holl aelodau a staff - sefyll fel y mae, fel y bydd yr holl aelodau a staff wedi'u hanghymhwyso rhag dod yn Aelodau Cynulliad.

Nodwn hefyd fod pob ymateb arall a ddaeth i law naill ai o blaid cynnwys y swyddi yn y Gorchymyn drafft, neu ni wnaed unrhyw sylwadau.

Ar y sail hon, bwriadwn osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol Orchymyn drafft sy'n rhestru pob swydd a gynhwyswyd yn nrafft yr ymgynghoriad, ynghyd ag aelodau o Dribiwnlysoedd Cyflogaeth a'r Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth.

***Materion cysylltiedig***

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ac yn cytuno â chefnogaeth Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Cymru) i'r syniad o gyhoeddi rhestr hollgynhwysfawr o'r holl ddarpariaethau anghymhwyso.

Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr 'Ymchwiliad i Anghymhwyso Person rhag Bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru', nododd Llywodraeth Cymru anhawster darpar ymgeiswyr o ran penderfynu a ydynt wedi'u hanghymhwyso rhag ceisio bod yn Aelod o'r Cynulliad, oherwydd daw'r rhestr o swyddi sy'n anghymhwyso o sawl ffynhonnell (Deddf Llywodraeth Cymru, y Gorchymyn Anghymhwyso sydd mewn grym ar y pryd, ynghyd â darpariaethau perthnasol unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n bodoli). Yn ei hymateb, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i greu rhestr hollgynhwysfawr, anstatudol o'r holl ddarpariaethau anghymhwyso yr ydym yn ymwybodol ohonynt, o ba

ffynhonnell bynnag, a sicrhau ei bod ar gael i bartïon a darpar ymgeiswyr. Mae'r Comisiwn Etholiadol eisoes wedi cadarnhau y byddai'n fwy na pharod i weithio gyda ni er mwyn paratoi'r rhestr hollgynhwysfawr hon, fel y gellid ei chyhoeddi ochr yn ochr â chanllawiau'r Comisiwn i ddarpar ymgeiswyr. Byddai hyn yn sicrhau ei bod ar gael yn gyffredinol i'r cyhoedd, a byddai'n manteisio i'r eithaf ar fuddiannau'r cyfryngau digidol, yn unol ag awgrym Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Cymru), drwy ei harddangos ar-lein.

**Y Camau Nesaf**

Bydd Llywodraeth Cymru yn gosod Gorchymyn drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, wedi'i ddiwygio i gynnwys cyfeiriad at aelodau o Dribiwnlysoedd Cyflogaeth a Thribiwnlysoedd Apêl Cyflogaeth fel y'i hamlinellwyd uchod. Mae'n rhaid i'r Gorchymyn drafft gael ei gymeradwyo gan y Cynulliad cyn y gellir ei argymell i Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor i'w wneud. Ar yr amod y caiff ei gymeradwyo gan y Cynulliad a'i gyfeirio at Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor, bwriadwn i Orchymyn 2015 gael ei wneud cyn toriad yr haf.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i baratoi'r rhestr hollgynhwysfawr o swyddi sy'n anghymhwyso, fel y bydd hon ar gael ymhell cyn etholiadau nesaf y Cynulliad.

## Atodiad A

### Rhestr o Ymatebwyr

Stuart Williams, Barnwr Cyflogaeth Rhanbarthol.
Angela Gemmill, Rheolwr Cydberthnasau, y Sefydliad Rheoli Morol
Andrew Morris, Llywydd y Tribiwnlys Eiddo Preswyl
Kay Jenkins, Pennaeth Swyddfa, Cymru, y Comisiwn Etholiadol
Steve Halsall, Prif Weithredwr Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Gwyn Howells, Prif Weithredwr Hybu Cig Cymru (HCC)
Kevin Jones, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Rhys James George, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (Cymru)